Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD
TAKING OVER MUSEUMS

Astudiaeth Achos CASE STUDY 3

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
National Slate Museum, Llanberis

WHY TAKE PART ?

With a collection of large, industrial artefacts, the museum was attracted to the hands-on nature of Taking Over Museums Day. Giving young people more opportunities to get up close with the collection and get involved with the work of the museum was the starting point for the museum's planning.

PAM CYMRYD RHAN?

Am fod gan yr amgueddfa gasgliad o arteffactau diwydiannol mawr, roedd natur ymarferol Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn apelio ati. Man cychwyn gwaith cynllunio'r amgueddfa oedd sicrhau rhagor o gyfleoedd i fwy o bobl ifanc ddod i gysylltiad agos â'r casgliad a chael bod yn rhan o waith yr amgueddfa.

WHO TOOK PART ?

Twelve Year 9 pupils from a mainstream school although all were accessing an alternative curriculum due to Special Educational Needs or Emotional & Behavioural Difficulties. Many were from families that the museum was keen to encourage to visit. Since a member of staff already had a personal connection with the group it was decided to offer them the opportunity to take part.

PWY GYMERODD RAN?

Deuddeg o ddisgyblion Blwyddyn 9 o ysgol prif ffrwd, er bod pob un ohonyn nhw'n dilyn cwricwlwm amgen am fod ganddyn nhw Anghenion Addysgol Arbennig neu Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol. Roedd llawer ohonyn nhw'n dod o deuluoedd yr oedd yr amgueddfa'n awyddus i'w hannog i ymweld â hi. Gan fod gan aelod o'r staff gysylltiad personol â'r grŵp eisoes, penderfynwyd cynnig cyfle iddyn nhw gymryd rhan.

WHAT DID THEY DO ?

Members of staff at the museum came up with a list of real tasks that needed to be carried out, such as setting up for the forthcoming Christmas Fayre, maintenance and preservation work on some of the large pieces of machinery in the collection.

BETH WNAETHON NHW?

Aeth aelodau o staff yr amgueddfa ati i lunio rhestr o dasgau go iawn yr oedd angen eu gwneud, megis paratoi ar gyfer y Ffair Nadolig, a gwaith cynnal a chadw a gwaith cadwraeth ar rai o'r peiriannau mawr sydd yn y casgliad.

HOW DID THEY SPEND THEIR TIME ON THE DAY?

After an introduction to staff members who explained their roles at the museum, the pupils were split into three groups with team tasks:

- Waxing and oiling items of machinery
- Working on the steam engine – cleaning pistons and helping the technician 'steam up'

SUT WNAETHON NHW DREULIO'U HAMSER AR Y DIWRNOD?

Ar ôl cael eu cyflwyno i'r staff, a esboniodd pa waith yr oedden nhw'n ei wneud yn yr amgueddfa, rhannwyd y disgyblion yn dri grŵp a rhoddwyd tasgau iddyn nhw eu gwneud yn eu timau:

- Cwyro ac oelio rhai o'r peiriannau
- Gweithio ar yr injan stêm – gan lanhau pistonau a helpu'r technegydd i 'godi stêm'

- Making Victorian-style Christmas decorations and decorating the site – staff had arranged for the museum's Christmas tree to be delivered that morning so the pupils could put it up.

  At the end of the day all the young people were able to ride on the steam engine and help with operating it.

  There's an excellent video of what the young people got up to here: http://www.youtube.com/watch?feature=player_embedded&v=TCW0iDwSKC4

WHAT HAPPENED NEXT?

On the day, pupils wore overalls, hard hats and other protective clothing and were welcomed by the museum as real staff members. They said that this helped them feel like they were there to do an important job and they particularly enjoyed the practical tasks. The pupils were also challenged and supported with an unfamiliar environment and a series of new situations – giving live radio interviews, talking to visitors, making a DVD of their experience, which was particularly beneficial to children with additional needs.

Having had such a positive experience at the museum, the school has already booked to bring the children back for a general visit in the Summer.

All the museum's staff were involved with the event; some were nervous about how they would cope with the group on-site. Afterwards, all said that it had been enjoyable and a real eye-opener in terms of understanding the needs and interests of young people. It has helped them think about what the museum can offer this age group in future and there are plans to participate in future Taking Over Museums Days.

'I learned that life was very hard 70 years ago, and that preserving the past is very important.'
Taking Over Museums Day participant

'The best day I've had in work since I started here'
Member of museum staff

- Gwneud addurniadau Nadolig yn steil Oes Victoria ac addurno'r safle - roedd y staff wedi trefnu bod coeden Nadolig yr amgueddfa yn cyrraedd y bore hwnnw er mwyn i'r disgyblion fedru codi'r goeden.

  Ar ddiwedd y dydd, cafodd pob un o'r bobl ifanc gyfle i fynd ar yr injan stêm a helpu i'w rhedeg.

  Mae fideo gwych o'r hyn y bu'r bobl ifanc yn ei wneud i'w gweld yma (ar gael yn Saesneg yn unig): http://www.youtube.com/watch?feature=player_embedded&v=TCW0iDwSKC4

BETH DDIGWYDDODD NESAF?

Ar y diwrnod, gwisgodd y disgyblion oferôls, hetiau caled a mathau eraill o ddillad diogelwch a chawson nhw eu croesawu i'r amgueddfa fel pe baen nhw'n aelodau go iawn o'r staff. Roedd hynny'n eu helpu i deimlo eu bod yno i wneud gwaith pwysig a gwnaethon nhw wir fwynhau'r tasgau ymarferol. Cafodd y disgyblion hefyd eu herio a'u cefnogi mewn amgylchedd anghyfarwydd ac mewn cyfres o sefyllfaoedd newydd – rhoi cyfweliadau yn fyw ar y radio, siarad ag ymwelwyr, gwneud DVD o'u profiadau, a oedd yn arbennig o fuddiol i blant ag anghenion arbennig.

Ar ôl cael profiad mor gadarnhaol yn yr amgueddfa, mae'r ysgol eisoes wedi trefnu dod â'r plant yn ôl ar ymweliad cyffredinol yn yr haf.

Roedd holl staff yr amgueddfa yn gysylltiedig â'r diwrnod; roedd rhai ohonyn nhw'n nerfus ynghylch sut y bydden nhw'n ymdopi â'r grŵp ar y safle. Dywedodd pob un ohonyn nhw wedyn fod y diwrnod yn un hynod ddifyr a'i fod yn agoriad llygad o ran deall anghenion a diddordebau pobl ifanc. Mae wedi eu helpu i ystyried yr hyn y gall yr amgueddfa ei gynnig i'r grŵp oedran hwn yn y dyfodol ac mae cynlluniau ar y gweill i gymryd rhan mewn Diwrnodau Meddiannu Amgueddfeydd yn y dyfodol.

'Dysgais i fod bywyd yn galed iawn 70 mlynedd yn ôl, a bod diogelu'r gorffennol yn bwysig iawn.'
Un o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd

'Y diwrnod gorau i mi ei gael yn y gwaith ers i mi ddechrau yma'
Aelod o staff yr amgueddfa